| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 28 Chwefror 2017 |
| **TEITL** | Awdit Iaith Mewnol |
| **AWDUR** | Gwenllian Mair Williams<br>Swyddog Datblygu Iaith |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r Awdit Iaith a chynnig camau gweithredu pellach |

**1. Cefndir**

1.1 Fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2015-17 ymrwymwyd i gynnal Awdit o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Y bwriad oedd canfod i ba raddau y mae'r Cyngor a'i swyddogion yn llwyddo i weithredu Polisi Iaith y Cyngor ac yn llwyddo i *"normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir"*.

1.2 Ail fwriad y gwaith yw ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau hynny a ddarperir i drigolion y sir yn uniongyrchol, ynghyd â thrwy drefniadau a chytundebau trydydd parti."

1.3 Yn dilyn yr arolwg a'r asesiad cychwynnol, blaenoriaethwyd 4 Adran i gydweithio â hwy i'w cynorthwyo i gymryd camau i wella arferion staff a'u hymwybyddiaeth am yr hyn sydd yn ddisgwyliedig wrth weithredu yn unol a'r Polisi Iaith. Y 4 Adran blaenoriaeth yw:

- Ymgynghoriaeth
- Oedolion, Iechyd a Llesiant
- Economi a Chymuned
- Rheoleiddio

**2. Diweddariad ar yr Adrannau Blaenoriaeth**

2.1 Cafwyd cyfarfodydd cychwynnol rhwng yr Aelod Cabinet a phenaethiaid yr Adrannau blaenoriaeth, er mwyn adnabod a chytuno ar gamau gweithredu cychwynnol er mwyn ymateb i ganfyddiadau'r Awdit.

2.2 Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, lluniwyd cynlluniau gweithredu drafft ar gyfer **Ymgynghoriaeth** ac **Oedolion, Iechyd a Llesiant** ac mae'r cynlluniau drafft yma wedi eu rhannu gyda'r Penaethiaid er sylwadau.

2.3 Mae gweithredu eisoes wedi cychwyn ar rai elfennau o'r cynllun gweithredu gydag **Ymgynghoriaeth**, gyda 6 sesiwn ymwybyddiaeth iaith bellach wedi eu cynnal gyda staff yr adran.

Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio fel drafft ar gyfer yr Adran **Economi a Chymuned**, ond cytunwyd i oedi cyn ei rannu nes y byddai canfyddiadau Ymchwiliad Gweledольd y Gymraeg yn derfynol. Y rheswm am hynny yw y credir y byddai'n llawer mwy synhwyrol i ymgorffori unrhyw argymhellion perthnasol o'r Ymchwiliad fel rhan o gynlluniau gweithredu'r Awdit, yn hytrach na cheisio cyfarch yr argymhellion ar wahân.

2.4 Serch hynny, mae cynllun gweithredu unigol ar gyfer y gwasanaeth hamdden wedi ei lunio, a'i gytuno gyda'r Pennaeth a'r tîm rheoli. Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu deunyddiau fydd yn cynorthwyo hyfforddwyr nofio i roi lle amlwg i'r Gymraeg wrth gynnal gwersi, angen wedi adnabod i gynnwys targed fydd yn cyfarch lle'r Gymraeg yn y broses recriwtio ac anwytho, a chynlluniau ar y gweill i adfer y cynllun Pencampwyr Iaith ac i gynnal sesiynau ymwybyddiaeth gyda pedair canolfan hamdden yn ystod mis Mawrth.

2.5 Nid oes cynllun wedi ei gytuno gyda'r Adran **Rheoleiddio** eto, ond bydd hyn yn digwydd yn fuan.

2.6 At hyn, bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu rhwng penaethiaid y 4 Adran, Aelodau Cabinet yr Adrannau hynny, ynghyd â'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, er mwyn sicrhau fod perchnogaeth ac atebolrwydd am y cynlluniau gweithredu hyn yn yr Adrannau.

## 3. Diweddariad ar y Cynlluniau Corfforaethol

Yn ychwanegol i'r gwaith dwys yn yr 4 Adran blaenoriaeth, cytunwyd hefyd fod angen ymyraethau mwy cyffredinol i rai o ganfyddiadau'r Awdit:

3.1 E-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith

Cafodd e-fodiwl ei ddatblygu ar y cyd rhwng yr Uned Iaith a'r tîm Dysgu a Datblygu a'i gwblhau Ionawr 2017. Mae bellach yn fyw ar y porth dysgu, ac mae nifer o staff eisoes wedi ei gwblhau. Y gobaith yw y bydd y modiwl yn cael ei lansio yn swyddogol ddechrau Mawrth 2017. Gellir gweld y modiwl drwy ddilyn y linc isod:

http://gwynedd.learningpool.com/course/view.php?id=196#section-1

3.2 Cynllun Cyfathrebu

Mae cynllun cyfathrebu drafft yn y broses o gael ei lunio yn sgil trafodaeth gyda'r Uned Gyfathrebu, ac er bod gwaith mireinio pellach arno, bydd y cynllun yn fodd o sicrhau bod negeseuon o anogaeth, a negeseuon cadarnhaol am bwysigrwydd hybu'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor yn cael eu cyfleu'n gyson i staff rheng-flaen.

Fel rhan o'r drafodaeth yma, amlygwyd pa mor ddylanwadol oedd neges y Prif Weithredwr am y Gymraeg a anfonwyd drwy Cyfathrebu Mewnol ychydig amser yn ôl, a chytunwyd fod angen i negeseuon cyson gael eu cyfleu am ymrwymiad y Cyngor i'r Gymraeg, gan blethu hynny gyda Ffordd Gwynedd.

At hyn, sicrhawyd fod  arwyddion *Iaith Gwaith* eisoes wedi eu gosod yn holl Siopau Gwynedd er mwyn amlygu y gellir siarad Cymraeg gyda staff ymhob un ohonynt, gan felly annog y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r Cyngor.

## 4 Argymhelliad

Gofynnir i'r aelodau dderbyn cynnwys yr adroddiad..